# Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

## Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 18 Mehefin, 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Lewis Davies, Richard A. Dew, Jeff Evans, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, Derlwyn R. Hughes, Kenneth P. Hughes, Vaughan Hughes, T. Victor Hughes, W.T. Hughes, Llinos M. Huws, Aled M. Jones, Carwyn Jones, Gwilym O. Jones, Raymond Jones, Richard O. Jones, R.Ll. Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, Bob Parry OBE, Dylan Rees, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Peter S. Rogers, Alwyn Rowlands, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Ysgrifennydd,<br>Trysorydd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Trefor Lloyd Hughes, H. Eifion Jones, Dafydd R. Thomas. |
| **HEFYD YN BRESENN0L:** | DIM |

---

**1 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd Mr. T. Victor Hughes yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cyfarfod am ei hyder ynddo.

**2 ETHOLIAD IS GADEIRYDD**

Etholwyd Mr. Aled Morris Jones yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r cyfarfod am ei hyder ynddo.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**4 COFNODION**

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2013.

**5 AELODAETH PWYLLGORAU'R YMDDIRIEDOLAETH ELUSENNOL YNYS MÔN**

Cafwyd cyflwyniad gan yr Ysgrifennydd ar sefydlu'r Ymddiriedolaeth Elusennol yn dilyn y gymynrodd a gafwyd gan Shell UK er budd pobl Ynys Môn. Dywedodd fod yr Ymddiriedolaeth yn werth o gwmpas £15m ynghyd â'r tir yn Rhosgoch sydd dros 190 o erwau. Y Cyngor Sir yw Ymddiriedolwr yr Ymddiriedolaeth Elusennol, gan weithredu trwy'r aelodau.

Dywedodd fod yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi trafod y gwrthdaro diddordeb posib rhwng rôl swyddogion y Cyngor Sir a'r Ymddiriedolaeth Elusennol, ynghyd â rôl yr Aelodau Etholedig fel Aelodau o'r Cyngor Sir a'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth Elusennol wedi penderfynu gofyn am gyngor proffesiynol ynghylch gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth i'r dyfodol, ynghyd â chyngor mewn perthynas â gwerthu'r tir yn Rhosgoch. Wrth i gyfraith elusennau ddod yn fwyfwy cymhleth, a gan bod raid cydymffurfio gyda chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, byddai gwahanu gweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth oddi wrth y Cyngor yn sicrhau y byddai cyngor a chymorth arbenigol addas ar gael i'r Ymddiriedolaeth i'r dyfodol.

Nododd yr Ysgrifennydd ymhellach y bydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol yn gweithredu gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd a thri phwyllgor:  y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol a'r Pwyllgor Adfywio.  Fodd bynnag, ychydig o weithgareddau fu o fewn y Pwyllgor Adfywio yn y blynyddoedd diwethaf ac yn anaml iawn y mae'n cyfarfod. Yn y gorffennol mae'r Aelodau wedi ceisio osgoi cyflwyno agweddau gwleidyddol yng ngweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ac roedd disgwyl i bob aelod wasanaethu ar un o'r tri phwyllgor.

Yn unol â'r Weithred sy'n llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, mae'r aelodau yn arwyddo sieciau ar gyfrif yr Ymddiriedolaeth.  Mae angen tri aelod ar y mandad, gydag unrhyw ddau ohonynt yn arwyddo bob tro.  Y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac un arall sydd yn arwyddo - yr arferiad yw mai'r cyn-Gadeirydd yw'r trydydd llofnodydd.

**PENDERFYNWYD:**

- **Awdurdodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth Elusennol a Chadeirydd y Pwyllgor Grantiau Cyffredinol (pan fydd wedi ei benodi/phenodi) i arwyddo sieciau ar ran yr Ymddiriedolaeth;**

- **Cadarnhau sefydlu tri phwyllgor i weithredu ar ran yr Ymddiriedolaeth lawn ac, yn unfrydol, hepgor yr angen am gydbwysedd gwleidyddol.  Bydd yr aelodaeth fel a ganlyn:**

  **Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau:**

  ***Ann Griffith, Kenneth P. Hughes, Trefor Ll. Hughes, A.M. Jones, G.O. Jones,  H. Eifion Jones, R.Ll. Jones, Alun Mummery, Ms. Nicola Roberts, Dafydd R. Thomas.***

  ***Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn fel aelodau ex-officio.***

  **Pwyllgor Grantiau Cyffredinol:**

  ***Lewis Davies, Richard A. Dew, Jeff M. Evans, Jim Evans, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Llinos M. Huws, Richard O. Jones, Dylan Rees, Peter S. Rogers.***

  ***Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn fel aelodau ex-officio.***

  **Pwyllgor Adfywio :**

  ***John Griffith, Derlwyn R. Hughes, W.T. Hughes, Carwyn Jones, Raymond Jones, R. Meirion Jones, Bob Parry OBE, J. Arwel Roberts, Alwyn Rowlands, Ieuan Williams.***

  ***Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn fel aelodau ex-officio.***

- **Awdurdodi'r Pwyllgorau i benodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd fel bod modd iddynt weithredu'n effeithiol.**

- **Derbyn y gall bod angen ailystyried yr uchod yn dilyn yr adolygiad cyfredol o Gyfansoddiad yr Ymddiriedolaeth a'i dulliau gweithredu pan fydd y Cyfreithwyr allanol a gomisiynwyd i gwblhau gwaith yn adrodd yn ôl ar fath faterion.**

- **Bod aelodaeth y Pwyllgorau hyn yn parhau am oes y Cyngor Sir presennol neu hyd nes y gwneir unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad yn dilyn yr adolygiad.**

**Mr. T. V. Hughes**
**Cadeirydd**